Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Llandegfan
# Ysgol Gynradd Llandegfan
# Llandegfan
# Ynys Môn
# LL59 5UW

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**


**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/08/2013**

## Ynglŷn â'r lleoliad

Mae Cylch Chwarae Llandegfan yn gylch cyfrwng Saesneg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Llandegfan, Llandegfan, Ynys Môn. Daw bron pob un plentyn sy'n mynychu'r lleoliad o'r pentref a'r ardal gyfagos. Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae'r lleoliad wedi'i gynnal yn y pentref ers 30 blynedd ac wedi'i leoli yn yr ysgol ers 2006. Mae'n rhannu'r adeilad gyda'r Cylch Meithrin a'r clwb ar ôl ysgol. Mae'r lleoliad ar agor rhwng 9yb ac 11.30yb ar foreau Mercher, Iau a Gwener a rhwng 12.15yp a 2.45yp ar brynhawn dydd Llun.

Dywed y lleoliad fod ychydig o blant yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac nid oes un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Daw ychydig o blant o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am uchafswm o 22 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Ar hyn o bryd, mae 23 o blant yn mynychu'r lleoliad ar ryw adeg o'r wythnos; mae 19 ohonynt yn dair a phedair blwydd oed ac yn cael i'w hariannu.

Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2007. Mae dwy gymhorthyddes yn ei chefnogi yn ystod yr wythnos. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas.

Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y lleoliad. Arolygwyd y lleoliad diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2011. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Estyn yn 2007.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r plant yn dangos cynnydd da ym mhob maes dysgu;
- bod gan bron bob plentyn agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn gyfrifol;
- y cynllunio da o'r profiadau dysgu;
- y cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol, sy'n cefnogi'r holl blant;
- yr addysgu effeithiol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- yr adnoddau da sydd ar gael;
- y berthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant; a'r
- cyd-weithrediad effeithiol ag asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- bod gan y lleoliad hanes da o roi newid ar waith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant;
- bod systemau hunanarfarnu a chynllunio strategol yn effeithiol;
- agwedd gadarnhaol a gweithredol y staff tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- defnydd rheolaidd a synhwyrol o gymorth allanol; ac
- mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i’r lleoliad:

A1 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad corfforol

A2 Datblygu’r amgylchedd awyr agored i wella gwybodaeth a dealltwriaeth plant o dwf planhigion a gofalu am yr amgylchedd

A3 Sicrhau fod asesiadau dyddiol a manwl yn arwain yn uniongyrchol at dargedau plant unigol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae bron pob un plentyn yn trafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion yn hyderus ac maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd. Er enghraifft, mae plant yn trafod y gwasanaethau brys yn effeithiol ac yn rhoi awgrymiadau synhwyrol am y rolau gwahanol sydd gan bobl wrth iddynt eu cadw'n ddiogel.

Mae bron pob un o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn gwrando'n astud ar storïau. Maent yn ymuno'n frwdfrydig wrth drafod y storïau hyn neu wrth ganu caneuon a hwiangerddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae bron pob un o'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau a symudiadau mewn caneuon yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn awyddus i ateb cwestiynau am yr hyn y maent yn eu gwneud. Mae llawer o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol ac maent yn dal llyfrau yn gywir. Maent yn adnabod y prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys stori yn ddeallus gyda'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiben ysgrifennu. Mae bron pob un o'r plant henach yn ysgrifennu eu henwau'n ddarllenadwy.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau rhifedd da. Mae'r plant henach yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau i 20 yn hyderus. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio bwcedi, caniau dŵr a photeli plastig fel 'bach' a 'mawr' neu 'trwm' ac 'ysgafn' wrth eu llenwi â dŵr neu dywod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall yn glir sut i restri rhifau mewn trefn o'r cyntaf i'r pumed. Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddwyd yn y Gymraeg ac mae ychydig o blant yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth. Mae bron pob un plentyn yn defnyddio'r cyfrifiadur ac offer electronig yn effeithiol ac yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr hapus a hyderus. Mae bron pob un o'r plant, mewn perthynas â'u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo yn drylwyr cyn bwyta ffrwythau ac yfed llaeth ac yn gwneud hynny heb lawer o anogaeth. Mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda fod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini.

Mae gan bron pob un plentyn agwedd dda at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt, dan do ac yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar y staff. Mae bron pob un o'r

plant yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o’r plant yn ymgymryd yn llawn â phob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Mae bron pob un o’r plant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol drostynt eu hunain ac yn gweithio’n dda yn annibynnol.

Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda iawn â’i gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill ac yn rhannu adnoddau o’u gwirfodd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn awgrymu syniadau ynglŷn â beth a sut maent am ei ddysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r cynllunio yn effeithiol. Mae’r cwricwlwm yn adeiladu’n gyson ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm, yn enwedig medrau llythrennedd a rhifedd. Gosodir amser yn wythnosol i’r arweinydd a’r staff drafod y cwricwlwm a gweithgareddau’r themâu. Felly, mae’r cwricwlwm hyblyg yn cael i’w rheoli’n dda ac yn cael i’w gysylltu’n effeithiol â diddordebau’r plant.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi’u cynllunio’n drylwyr ac mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a’u gweithgareddau eu hun. Darperir gweithgareddau da i’r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd a datblygiad creadigol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ar gael ar gyfer datblygiad corfforol y plant. Mae’r holl oedolion yn cyfathrebu’n effeithiol â’r plant yn y Gymraeg.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda. Mae’r staff brwdfrydig yn gyson gyfeirio’r plant tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol fel y cyfrifiadur a theganau symudol. Mae gan yr holl blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel chwarae rôl yn y caffi, peintio ac arbrofi gyda dŵr a thywod.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau dysgu plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau gan yr heddlu, y frigâd dân, nyrs deintyddol a ffarmwr lleol yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm, sy’n datblygu ac ymestyn profiadau’r plant yn effeithiol. Mae ymweliadau i lefydd o ddiddordeb yng Ngogledd Cymru a’r ardal gyfagos yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o’r byd o’u cwmpas yn dda.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd da hefyd i’r plant ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Er enghraifft, mae’r lleoliad yn dathlu Diwali a’r Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd. Mae’r gweithgareddau yma yn helpu’r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o’r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu papur, cardfwrdd a bwyd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddysgu am sut mae pethau yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae'r staff yn addysgu'n dda ac mae gwybodaeth ymarferol dda am ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen ganddynt. Mae perthynas positif iawn rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog, sy'n golygu bod y staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion. Mae staff yn gwybod pryd i ymyrryd yn briodol yn chwarae'r plant. Mae'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar gyfer y plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae'r staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda i lefelau datblygiad y plant. Mae'r staff yn annog y plant yn dda i werthuso'u gwaith wrth iddynt drafod storïau neu sut i archebu pryd o fwyd mewn bwyty. Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau eu hunain. Mae'r staff yn bositif iawn wrth i'r plant gyrraedd ac maent yn parhau â'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiynau.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn sefydlog. Mae'r broses o gofnodi cyflawniadau'r plant yn cael ei gwblhau'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau'n arwain, gyda digon o fanylder, at dargedau plant unigol. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn annog y plant ar bob achlysur i hyrwyddo eu hunan-barch a'u hyder. Rhoddir cyfleoedd da i blant fyfyrio, trafod eu teimladau a chymryd eu tro. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol a rhoddir anogaeth effeithiol i blant gymryd cyfrifoldeb i weini ffrwythau a diodydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel. Caiff y drysau eu cloi ac fe'u hagorir gan aelod o staff yn unig. O ganlyniad, gall neb ddod i mewn ac ni all plentyn adael ar ei ben ei hun. Mae'r ardal awyr agored yn o fewn ffiniau'r lleoliad ac fe gaiff y gatiau eu cloi yn ddiogel. Cymerir gofal da pan fydd plant yn cael eu casglu i sicrhau eu bod yng ngofal eu rhieni neu ofalwr hysbys.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr

arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif iawn. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad gormesol yn llwyddiannus.

Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad da yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng pob gweithgaredd sydd dan do ac yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau yn llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a'r awdurdod lleol yn synhwyrol. Mae'r arfer hon yn sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinydd, staff a'r pwyllgor rheoli yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer darparu profiadau diddorol i'r plant.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Nodir blaenoriaethau clir ar gyfer gwella trwy weithdrefnau hunan arfarnu cadarn. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor rheoli yn arwain yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae ei systemau rheoli yn cwrdd â gofynion. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a staff yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn gwybod beth y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r lleoliad yn hunan arfarnu'n effeithiol. Mae'n sicrhau cyswllt effeithlon rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu. Mae tystiolaeth gadarn o arfarniadau buddiol wrth bawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r targedau priodol yn cynnwys datblygu'r ddarpariaeth am dechnoleg gwybodaeth, gwella'r recordio o gynnydd plant a thargedu medrau corfforol y plant.

Ar y cyfan, mae'r argymhellion o arolygiad diwethaf Estyn wedi eu cyrraedd. Fodd bynnag, er bod adnabod y camau nesaf yn dysgu'r plant wedi cyrraedd yn rhannol, mae'n aros fel ardal i ddatblygu i'r lleoliad.

Targedir ardaloedd i wella yn effeithiol a'n gynnil yn erbyn cyfrifoldebau a graddfeydd amser yng nghynllun datblygu'r lleoliad. Mae staff yn awyddus i dderbyn syniadau newydd o hyfforddiant ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar hunan arfarnu effeithiol a chynllunio i ddatblygu, wedi arwain at well ddealltwriaeth o'r broses i'r holl staff. Mae hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas effeithiol rhwng y lleoliad a'r rhieni. Mae ymatebion y rhieni yn yr holiaduron ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi'n fawr safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd cyson i gwrdd â'r staff. Ceir llyfryn cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n eu darparu â manylion perthnasol am y lleoliad.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r ysgol yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol cyn iddynt ddechrau'n amser llawn. Mae'r partneriaethau cymunedol yn gadarn. Mae'r bartneriaeth â Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a'r awdurdod lleol yn dda ac yn gymorth i symud y lleoliad ymlaen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn dda. Mae'r adnoddau yn cael eu rheoli'n dda i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol. Defnyddir staff yn effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi dysgu'r plant. Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant.

Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn hylaw i'r plant. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardal awyr agored i ddarparu ystod o brofiadau dysgu effeithiol.

Yng ngoleuni'r deilliannau da a gyflawnir gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd 11 o rieni a gofalwyr i'r holiaduron. Mae pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â gwaith y lleoliad.

Mae pob un o'r rhieni a'r gofalwyr a ymatebodd i'r holiadur yn fodlon â'r lleoliad ac yn cytuno bod eu plant yn teimlo:

- y cawsant gymorth i ymgynefino'n dda a'u bod yn hoffi'r lleoliad;
- eu bod yn gwneud cynnydd da a bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu;
- eu bod yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn ddiogel;
- eu bod yn cael cymorth ychwanegol priodol os bydd angen; ac
- eu bod yn ymddwyn yn dda.

Roeddent hefyd yn cytuno:

- bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau;
- bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol;
- eu bod yn deal gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer delio â chwynion; ac
- eu bod yn gyfforddus yn mynd at y cylch gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau.

Mae bron pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn teimlo:

- eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant.

Mae'r atebion hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â chymariaethau meincnod cenedlaethol.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae bron pob un plentyn yn hapus yn y lleoliad. Mae brwdfrydedd bron pob un plentyn yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â'u ffrindiau. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod ganddynt dasgau diddorol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |